

Briff Ymchwil
**Y Gyfres Cynllunio:
14 - Datblygiadau o
Arwyddocâd Cenedlaethol**

Awdur: **Eleanor Warren-Thomas ac Elfyn Henderson**
Dyddiad: **Tachwedd 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Eleanor Warren-Thomas ac Elfyn Henderson**

Dyddiad: **Tachwedd 2016**

Rhif Papur: **16-062**

Clawr blaen: **Llun Flickr gan John Englart. Trwydded Creative Commons**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Eleanor Warren-Thomas gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a alluogodd i'r papur hwn gael ei gwblhau.

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6317

✉ : Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru

🌐 : Cynulliad.Cymru/Pigion

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Y Gyfres Cynllunio: 14 - Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi hysbysiad hwylus ynghylch Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) yng Nghymru. Mae'n disgrifio beth yw DAC, pam y cyflwynwyd y drefn DAC, a'r broses o roi caniatâd ar eu cyfer. Mae hefyd yn esbonio sut y mae cymunedau yn cyfrannu at y broses DAC, yn ystyried a oes modd herio penderfyniad DAC, ac yn rhoi rhestr o ffynonellau defnyddiol o wybodaeth bellach.



Cynnwys

1. Beth yw Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol?	1
2. Beth yw'r broses o wneud cais ar gyfer DAC?	2
Cyn cyflwyno hysbysiad, cyflwyno hysbysiad, a chyn gwneud cais	3
Cyflwyno cais.....	4
Ymgynghori a chyhoedduswydd (sylwadau).....	4
Ymchwiliad.....	5
Penderfyniad.....	5
3. Ym mha ffordd y gall cymunedau lleol gymryd rhan yn y broses DAC?	6
4. Ym mha ffordd y gellir herio cais DAC?	6
5. Pwy sy'n gwneud yn siŵr bod y datblygiad yn digwydd yn unol â'r caniatâd cynllunio?	6
6. Ble mae modd cael gwybodaeth am hynt ceisiadau DAC?	6
7. Ffynonellau allweddol	7
Llywodraeth Cymru	7
Arolygiaeth Gynllunio Cymru.....	7
Cymorth Cynllunio Cymru.....	7
Y Porth Cynllunio	7
Y Gwasanaeth Ymchwil	7
Atodiad - rhestr o gategoriâu DAC	8

1. Beth yw Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol?

Cyflwynodd *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* gategori newydd, sef *Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol* (DAC), yng Nghymru. Ceisiadau cynllunio a gyflwynir i Lywodraeth Cymru, yn hytrach nag i awdurdodau cynllunio lleol, yw'r rhain. Caiff y broses o wneud cais ei diffinio gan *Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016* a'r *Rheoliadau* dilynol.

Prosiectau datblygu seilwaith mawr o bwysigrwydd cenedlaethol yw DAC, ac maent yn cynnwys meysydd awyr, rheilffyrdd, cyfleusterau storio nwy, gorsafoedd 10 megawat neu drosodd ar gyfer cynhyrchu trydan gwynt ar y tir, a gorsafoedd eraill rhwng 10 a 50 megawat ar gyfer cynhyrchu trydan ar y tir. Ceir rhestr lawn o'r categorïau DAC yn yr Atodiad (a nodir yn *Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016*). Bydd *Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru*, a fydd yn cael ei fabwysiadu yn 2019 neu 2020, hefyd yn dynodi rhai prosiectau DAC. Roedd penderfyniadau ynghylch rhai o'r prosiectau mawr hyn yng Nghymru yn arfer cael eu gwneud o dan broses Llywodraeth y DU ar gyfer *Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP)*, gydag awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch prosiectau llai.

Rheolir y broses ymgeisio ar gyfer DAC gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Gwneir penderfyniadau yng nghyd-destun *polisi cynllunio cenedlaethol* Llywodraeth Cymru a Chynllun Datblygu Lleol yr awdurdod cynllunio lleol, os oes ganddo un ar waith. Mae hyn yn wahanol i'r broses NSIP, lle gwneir penderfyniadau ar sail deuddeg o *Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol* mewn perthynas ag ynni, trafndiaeth, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff.


Awdurdodau cynllunio lleol sy'n ymdrin â chydsyniad ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan o dan 10 megawat. Proses NSIP y DU sy'n ymdrin â phrosiectau seilwaith ar raddfa fawr sy'n dod y tu allan i'r categorïau DAC (fel gorsafoedd dros 50 megawat sy'n cynhyrchu trydan nad yw'n dod o wynt).

Mae *Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol* Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd DAC yn gwneud y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol yn fwy pendant ac effeithlon, drwy wneud penderfyniad o fewn cyfnod amser statudol (36 wythnos).

Mae Bil Cymru, sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, yn cynnig datganoli pwerau caniatâd pellach i Gymru, gan gynnwys ar gyfer gorsafoedd sy'n cynhyrchu trydan nad yw'n dod o wynt hyd at 350 megawat. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n debygol y caiff y categorïau DAC eu hehangu i ddarparu ar gyfer y pwerau pellach hyn.

2. Beth yw'r broses o wneud cais ar gyfer DAC?

Bwriedir i'r broses o wneud cais ar gyfer DAC fod yn agored, fel bod modd datrys cynifer o broblemau â phosibl cyn cyflwyno cais i Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Caiff y broses ei hamlinellu isod.



Cyn cyflwyno hysbysiad, cyflwyno hysbysiad, a chyn gwneud cais

Ar gam statudol cyntaf y broses, mae darpar ymgeisydd yn cyflwyno hysbysiad o'r cais arfaethedig, a rhaid i Arolygiaeth Gynllunio Cymru ei dderbyn neu beidio â'i dderbyn cyn pen 10 diwrnod gwaith. Mae'n **rhaid talu ffi (£580) i Arolygiaeth Gynllunio Cymru ar gyfer yr hysbysiad**. Caiff ymgeiswyr eu hannog yn gryf i ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn y pwynt hwn, a hynny yn y cyfnod cyn yr hysbysiad. Caiff ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid cyn y prosesau hysbysu ac ymgynghori ffurfiol ei ystyried yn ganolog o ran sicrhau bod y broses DAC yn effeithiol.

Wedi i Arolygiaeth Gynllunio Cymru dderbyn yr hysbysiad, mae gan yr ymgeisydd 12 mis i gyflwyno'r cais. Yn ystod y 12 mis, rhaid i'r ymgeisydd gynnal prosesau ffurfiol cyn gwneud cais. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgysylltu'n llawn ag Arolygiaeth Gynllunio Cymru a rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, cymunedau, ymgynghoreion statudol a phartïon eraill â diddordeb.

Ar y cam hwn, gall ymgeiswyr ofyn am gyngor gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol cyn gwneud cais. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn penodi Swyddog Cynllunio arweiniol a fydd yn cydlynu ac yn cyflwyno'r holl gyngor ysgrifenedig. Os bydd angen gwybodaeth dechnegol neu arbenigol, gellir penodi Arolygydd hefyd. Yn yr achos hwn, bydd Arolygydd Cynllunio gwahanol yn archwilio'r cais terfynol. Y gost am wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau cynllunio lleol cyn gwneud cais yw £1,500, ac mae'r gost am y gwasanaethau a ddarperir gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn seiliedig ar yr amser a dreulir yn rhoi'r cyngor, a chyfradd o £55 fesul awr ar gyfer Swyddog Cynllunio, gyda TAW ar ben hyn. Gallai cyngor gynnwys cyfarwyddyd ar ffurf a chynnwys y cais ac adroddiadau technegol, polisi cynllunio perthnasol, rhwymedigaethau cynllunio (**cytundebau Adran 106**), gofynion statudol, a nodi pwy i ymgynghori â nhw.

Rhaid i ymgeiswyr gynnal ymgynghoriad ffurfiol yn para o leiaf chwe wythnos cyn gwneud cais, a rhaid iddynt roi cyhoeddusrwydd i'r prosiect. Fel gofynion sylfaenol, mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i berchnogion neu feddianwyr tir sy'n ffinio â'r safle, arddangos hysbysiadau ar y safle, a rhoi hysbysiad mewn papur newydd lleol. Bydd yr ymgynghoreion yn cynnwys: ymgynghoreion cymunedol (gan gynnwys cynghorau cymuned a chynghorwyr o'r holl wardiau etholiadol y mae safle'r prosiect ynddynt), ymgynghoreion arbenigol, a'r awdurdodau sy'n ymwneud ag unrhyw gydsyniadau eilaidd. Gall Arolygiaeth Gynllunio Cymru roi cyngor ar yr union ffordd o gynnal ymgynghoriad, a fydd yn amrywio gan ddibynnu ar y cynnig, a disgwylir y bydd y rhan fwyaf o brosiectau yn rhagori ar y gofynion ymgynghori statudol sylfaenol.

Bydd angen integreiddio **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (PDF 179 KB)** ac **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (PDF 165 KB)** yn ystod y gwaith ymgysylltu cyn cyflwyno hysbysiad ac yn y gweithgareddau ymgynghori ffurfiol. Bydd angen cael unrhyw gydsyniadau neu drwyddedau cysylltiedig sydd eu hangen gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar wahân i gydsyniad DAC, a dylid gwneud 'olrhain deuo!' i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r datblygiad o ganlyniad i'r caniatadau yn cael eu hadlewyrchu yn y cais. Os oes angen **cydsyniadau eilaidd (PDF, 169 KB)**, dylid ymgynghori â'r awdurdod a fyddai fel arfer yn rhoi cydsyniad, ond Gweinidogion Cymru a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghyd â'r prif gais.

Cyflwyno cais

Cyflwynir ceisiadau i Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Rhaid talu'r ffioedd canlynol wrth gyflwyno: y ffi gychwynol (£15,350); ffioedd effaith leol a ffioedd adroddiadau eraill (£2,350 neu £7,750 yn dibynnu ar y math o adroddiad); y ffi am archwilio'r cais (£870 neu £920 y dydd yn dibynnu ar y weithdrefn archwilio); y ffi am unrhyw hysbysiad o fwriad i amrywio'r cais (£520); a'r ffi i Weinidogion Cymru benderfynu ar gais (£14,700).

Gellir cyflwyno rhai ceisiadau, trwyddedau, gorchmynion, hysbysiadau a chydysniadau (cydsyniadau eilaidd) cysylltiedig ar yr un pryd. Rhaid bod y rhan fwyaf o ddogfennau'r cais ar gael i'r cyhoedd, a'u bod yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Fodd bynnag, yn achos y Datganiad Amgylcheddol, weithiau gall fod yn briodol cadw gwybodaeth yn gyfrinachol, yn arbennig os bydd cyhoeddi'r wybodaeth yn arwain at berygl o aflonyddwch neu niwed i rywogaeth brin neu sensitif.

Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn cyhoeddi dogfennau'r cais ar ei gwefan, a bydd cyfnod o 28 diwrnod ar ôl cael y cais (42 diwrnod os daw ynghyd â Datganiad Amgylcheddol) iddi benderfynu a yw'r cais yn un dilys. Os caiff ei dderbyn yn gais dilys, penodir Arolygydd iddo.

Os caiff cais ei dderbyn, a phan fydd hynny'n digwydd, mae angen i ymgeiswyr hysbysu pobl a chyrrff penodol, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais dilys. Gwneir hyn drwy roi hysbysiad uniongyrchol i berchnogion neu denantiaid y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, a chyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol os nad oes modd cysylltu â'r perchnogion neu'r tenantiaid yn uniongyrchol. Yn achos ceisiadau sy'n ymwneud â gweithrediadau tanddaearol sy'n golygu tynnu mwynau, mae cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol yn ofynnol bob tro. Hefyd, rhaid arddangos hysbysiadau safle o fewn 21 diwrnod cyn gwneud y cais ym mhob cymuned sy'n cynnwys tir o fewn y safle datblygu, a hynny am saith diwrnod o leiaf. Rhaid i'r hysbysiadau gynnwys cyfeiriad y wefan lle cyhoeddir copi o'r cais.

Ymgynghori a chyhoeddusrwydd (sylwadau)

Wedi i gais ddod i law, mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgeisydd, ac yn cychwyn cyfnod sylwadau o bum wythnos, lle bydd yr Arolygiaeth yn gwneud gwaith cyhoeddusrwydd ac ymgynghori. Rhaid gwneud y gwaith cyhoeddusrwydd ac ymgynghori hwn am o leiaf 21 diwrnod, a rhaid i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ("sylwadau") a'r Adroddiad Effaith Leol ddod i law cyn pen pum wythnos.

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yn rhannu cyfrifoldebau i roi cyhoeddusrwydd ynghylch y cais i berchnogion neu feddianwyr safleoedd yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig, a hynny cyn pen pum diwrnod gwaith wedi i'r cais ddod i law, a hynny am 21 diwrnod o leiaf. Rhaid i'r cyhoeddusrwydd ddigwydd drwy: roi hysbysiadau uniongyrchol i berchenogion a thenantiaid tir yng nghyffiniau'r datblygiad, arddangos hysbysiadau ar y safle, hysbysu cynghorau cymuned, cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol, a chynnal a chadw gwefan sy'n cynnwys manylion y datblygiad. Bydd copi o'r cais yn cael ei osod yn y gofrestr gynllunio leol.

Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ceisio ymgynghori â'r holl bartïon y byddai rhywun fel arfer yn cysylltu â nhw yn ystod cais cynllunio i awdurdod lleol. **[Rhaid ymgynghori'n ffurfiol ag ymgynghoreion arbenigol \(PDF, 194 KB\)](#)**, a rhaid hysbysu cynghorau cymuned drwy e-bost gyda lincs i fersiynau electronig o ddogfennau'r cais. Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu hysbysu am yr angen i lunio Adroddiad Effaith Leol. Nid yw'n ofynnol i Arolygiaeth Gynllunio Cymru gysylltu ag unrhyw un sydd eisoes wedi gwneud sylwadau yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, nac unrhyw un sydd wedi mynegi diddordeb mewn ymateb i ymgynghoriad. Bydd unrhyw un sydd â diddordeb yn

cael rhif cyfeirnod y cais ac yn gallu dilyn hynt yr achos ar-lein, neu gysylltu ag Arolygiaeth Gynllunio Cymru i gael y diweddaraf os nad ydynt yn gallu cael gafael ar y dogfennau ar-lein.

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o broblemau'n cael eu datrys yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ac wedi i'r Adroddiad Effaith Leol gael ei gyflwyno, bydd cyfnod o 10 diwrnod ar gyfer gwelliannau, a phenderfynu ar y weithdrefn. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn penderfynu a oes materion y mae angen penderfynu arnynt drwy un neu fwy o wrandawiadau neu sesiynau ymchwilio, neu a oes modd bwrw ymlaen â'r ymchwiliad drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig.

Ymchwiliad

Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn bwrw golwg ar y cais ac yn llunio adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar DAC cyn pen 36 wythnos o'r dyddiad y bydd y cais yn dod i law Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Er mwyn gallu bodloni'r amserlen hon, rhaid i Arolygiaeth Gynllunio Cymru anfon ei hadroddiad at Lywodraeth Cymru cyn pen 24 wythnos. Mae hyn yn caniatáu 17 wythnos ar gyfer yr archwiliad gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru, yn dilyn y cyfnod sylwadau o bum wythnos a 10 diwrnod ar gyfer gwelliannau a phenderfynu ar y weithdrefn. Bydd yr Arolygydd o Arolygiaeth Gynllunio Cymru a benodir i fwrw golwg ar y cais yn ymweld â safle'r datblygiad, a gellir cynnal gwrandawiadau neu sesiynau ymchwilio yn ystod y cyfnod hwn. Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, gellir atal amserlen yr ymchwiliad, er enghraifft:

- os oes ymrwymïadau cyfreithiol sydd heb eu datrys rhwng awdurdodau cynllunio lleol, trydydd partïon ac ymgeiswyr (fel anghydfodau ynghylch cytundebau Adran 106);
- os oes newidiadau sylweddol neu adolygiadau polisi;
- os bydd ymgeisydd yn gofyn i ddiwygio'r cais;
- os canfyddir bod y dogfennau ategol, fel y Datganiad Amgylcheddol, yn annigonol;
- os bydd partïon y mae gofyn iddynt ddod i wrandawriad neu ymchwiliad yn methu â gwneud hynny; neu
- os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar gydsyniad eilaidd newydd.

Pan fydd yr Arolygydd yn teimlo bod ganddo'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn dod i gasgliad gwybodus, bydd yn llunio adroddiad i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad i roi neu wrthod caniatâd cynllunio. Gan fod y penderfyniad terfynol yn nwylo Gweinidogion Cymru, gallai'r adroddiad gynnwys rhestr o'r amodau y mae'r Arolygydd yn credu y dylid eu gosod os rhoddir caniatâd cynllunio.

Penderfyniad

Mae gan Lywodraeth Cymru 12 wythnos wedi i adroddiad yr Arolygydd ddod i law er mwyn anfon llythyr penderfyniad ar y cais DAC ac unrhyw gydsyniadau eilaidd cysylltiedig. Fel arfer, caiff y llythyr hwn ei anfon at unrhyw berson sydd wedi gofyn am gael ei hysbysu, ac y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn rhesymol i'w hysbysu. Ar ôl gwneud y penderfyniad, bydd yn cael ei gyhoeddi ynghyd ag Adroddiad yr Arolygydd ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

3. Ym mha ffordd y gall cymunedau lleol gymryd rhan yn y broses DAC?

Ceir tri cham i gymunedau allu dweud eu dweud ar DAC:

- 01.** cyn cyflwyno hysbysiad (mae hyn yn wirfoddol ar ran y datblygwr, ond caiff ei annog yn gryf fel rhan ganolog o'r broses);
- 02.** ymgynghori ffurfiol cyn gwneud cais (chwe wythnos, gorfodol); a
- 03.** chyfnod sylwadau ar ôl cyflwyno'r cais (pum wythnos, gorfodol).

Daw'r cyfle gorau i ddylanwadu ar brosiect DAC yn ystod y cyfnod gwirfoddol cyn cyflwyno hysbysiad, a hynny trwy ddod i ddiwyddiadau a chyfarfodydd neu siarad â'r datblygwr. Gellir gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau ffurfiol yn ystod y cyfnod sylwadau gorfodol a'r prif gyfnod sylwadau. Yn olaf, gall y cyhoedd fod yn bresennol mewn unrhyw wrandawriad neu ymchwiliad y mae angen ei gynnal i edrych ar unrhyw faterion allweddol mewn perthynas â'r cais yn ystod y cyfnod ymchwilio. Fodd bynnag, dim ond y rheini sy'n cael gwahoddiad penodol gan yr Arolygydd i siarad, ac sy'n gallu cyfrannu at drafodaeth ar y mater sy'n destun ymchwiliad neu wrandawriad, sy'n cael cymryd rhan ffurfiol yn y broses.

4. Ym mha ffordd y gellir herio cais DAC?

Nid oes unrhyw hawl i apelio yn erbyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru i roi neu wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer DAC. Dim ond ar sail un o dri dosbarth bras y gellir herio penderfyniad yn yr Uchel Lys: anghyfreithlondeb, afresymoldeb ac amhriodoldeb gweithdrefnol. Rhaid gwneud her o'r fath cyn pen chwe wythnos wedi'r penderfyniad.

5. Pwy sy'n gwneud yn siŵr bod y datblygiad yn digwydd yn unol â'r caniatâd cynllunio?

Os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi caniatâd cynllunio, yr awdurdod cynllunio lleol yn unig sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y caniatâd, a sicrhau bod hyn yn cydymffurfio â'r cynlluniau ac unrhyw amodau. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol y pŵer i gymryd camau gorfodi os yw'n credu nad yw'r datblygiad yn cydymffurfio â'r caniatâd.

6. Ble mae modd cael gwybodaeth am hynt ceisiadau DAC?

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw cofrestr o brosiectau DAC, ac mae ar gael i'r cyhoedd.

7. Ffynonellau allweddol

Llywodraeth Cymru

– Llywodraeth Cymru: [Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol](#)

Arolygiaeth Gynllunio Cymru

– Arolygiaeth Gynllunio Cymru: [Canllawiau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol](#)

Gallwch gysylltu ag Arolygiaeth Gynllunio Cymru drwy'r manylion cyswllt isod i drafod cais penodol neu i ofyn am wybodaeth am y broses DAC:

Arolygiaeth Gynllunio Cymru

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Llinell ymholiadau cyffredinol: 02920 823866

E-bost: dns.wales@pins.gsi.gov.uk

Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw [Cymorth Cynllunio Cymru](#) sy'n helpu unigolion a chymunedau [cymwys](#) i gymryd rhan fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

Y Porth Cynllunio

Y [Porth Cynllunio](#) yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod peth o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae papurau briffio eraill a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ynghylch cynllunio ar gael ar ein gwefan: [Y Gwasanaeth Ymchwil](#).

Atodiad - rhestr o gategorïau DAC

Math o ddatblygiad	Trothwy maint/capaciti
Adeiladu, ymestyn neu newid gorsaf cynhyrchu trydan (ac eithrio gorsaf gynhyrchu ar gyfer gwynt ar y tir)	Disgwylir y bydd capaciti (neu gynnydd mewn capaciti) o 10 – 50 megawat.
Adeiladu, ymestyn neu addasu gorsaf cynhyrchu trydan gwynt ar y tir	Disgwylir capaciti cynhyrchu 10 megawat neu'n uwch.
Datblygiad sy'n ymwneud â chyfleusterau storio nwy tanddaearol	Capaciti gweithio (neu gynnydd mewn capaciti) o 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf a/neu uchafswm cyfradd llif (neu gynnydd yn yr uchafswm cyfradd llif) o 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd.
Adeiladu neu addasu cyfleuster naturiol hylifedig	
Adeiladu neu addasu cyfleuster derbyn nwy	
Datblygu sy'n gysylltiedig â maes awyr	Gwasanaethau cludiant teithwyr awyr ar gyfer o leiaf miliwn o deithwyr y flwyddyn, neu wasanaethau cludiant nwyddau awyr ar gyfer o leiaf 5,000 o symudiadau cludiant nwyddau awyr leiaf y flwyddyn.
Adeiladu neu addasu rheilffordd	Llain o drac o fwy na dau gilometr o hyd parhaus, sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru ac yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredydd cymeradwy.
Adeiladu neu addasu cyfnewidfa rheilffordd cludo nwyddau (gan gynnwys warysau) ond nid os yw'n rhan o sefydliad milwrol	Yn gallu ymdrin â llwythi o fwy nag un anfonwr i fwy nag un derbynnydd, ac ymdrin ag o leiaf ddau drên nwyddau y dydd.
Adeiladu neu newid argae neu gronfa ddŵr	Disgwylir i gyfaint y dŵr i'w ddal yn ôl gan yr argae neu ei storio yn y gronfa ddŵr fod yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig.
Datblygiad sy'n ymwneud â throsglwyddo adnoddau dŵr	Disgwylir i gyfaint y dŵr i'w drosglwyddo o ganlyniad i'r datblygiad fod yn fwy na 100 miliwn o fetrau ciwbig y flwyddyn.
Adeiladu neu addasu safle trin dŵr gwastraff neu seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff	Disgwylir i'r capaciti fod yn fwy nag ar gyfer poblogaeth sy'n cyfateb â 500,000, neu seilwaith ar gyfer storio dŵr gwastraff sy'n fwy na 350,000 o fetrau ciwbig.
Adeiladu neu addasu cyfleuster gwastraff peryglus	Yn achos gwaredu gwastraff peryglus drwy safleoedd tirlenwi neu storio dwfn, mwy na 100,000 o dunelli metrig y flwyddyn; mewn unrhyw achos arall, mwy na 30,000 o dunelli'r flwyddyn.